

Pwyllgor Rheoli Datblygu

2 Medi 2026

Yn bresennol (Yn bersonol)

Mr J Hogg (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorydd M Bowen, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Cynghorydd H Murphy,
Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A
Tinley a'r Cynghorydd M Williams.

Yn bresennol (O hirbell)

Cynghorydd D Clements, Miss F Day, Ms H Gwenllian, Cynghorydd M James,
Mr GA Jones a'r Cynghorydd B Price.

Swyddogion yn bresennol

Ms K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygiad), Ms C Broome (Swyddog Cynllunio
Hŷn), Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Mr J Hauser (Swyddog Cynllunio), Mr M Kent
(Swyddog Monitro), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mr A
Richards (Prif Swyddog Cynllunio), Mr I Wilson (Ecolegydd Cynllunio), Mrs C
Llewellyn (Cofnodion)

[Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol 10.00am – 11.40am;
11.50am - 12.50pm]

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Cynghorydd C George,
Cynghorydd Dr SL Hancock a'r Cynghorydd C Williams

2. Datgelu buddiant

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais
(ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

Cais a Chyfeirnod

Cofnodion 7(a) isod
EC24/0029 – Tir yn
Froghall Yard, Moreton
Lane, Saundersfoot /
Llanusyllt

Aelod(au)/Swyddog(ion)

Cynghorydd V Thomas

Gweithred

Datgan diddordeb
rhagfarnol ond
arhosodd yn y
cyfarfod am mai
mater o wybodaeth
yn unig oedd o dan
sylw.



3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2026 eu cyflwyno i'w cadarnau a'u llofnodi.

Ar gynnig Dr Havard, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Thomas, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2026.

Nodwyd.

4. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf, ychwanegodd y Cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn dweud bod penderfyniadau yn agored i gael eu scrwtineiddio gan y llysoedd ac y gallai hynny arwain at adolygiad barnwrol a'i bod felly yn bwysig eu bod yn gyfreithiol seiliedig.

Nodwyd.

5. Hawl i siarad yn y Pwyllgor

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*



Rhif cyfeirnod	Cynnig	Siaradwr
NP/25/0156/FUL Cofnod 6(a) cyfeir	Gosod y seiliau i leoli llety gwyliau (sy'n dod o dan y diffiniad o garafán) a'r decin, a'r fynedfa, tirweddu a'r gwaith seilwaith - Lydstep Beach Village, Lydstep Haven	Helen Ashby- Ridgway – Asiant
NP/26/0253/RES Cofnod 6(b) cyfeir	Cais am gymeradwyaeth i bob mater a gadwyd yn ôl gan gynnwys ymddangosiad, tirweddu, cynllun, graddfa a mynediad (NP/23/0545/FUL) – Tir ger Bro Dawel, Solfach, Hwlffordd	Elene Gegeshidze – Asiant

6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

- (a) Cyfeirnod: NP/25/0156/FUL
- Cynnig: Gosod y seiliau i leoli llety gwyliau (sy'n dod o dan y diffiniad o garafán) a'r decin, a'r fynedfa, tirweddu a'r gwaith seilwaith
- Lleoliad: Lydstep Beach Village, Lydstep Haven, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 7SB

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn unol â'r cynllun o ddirprwyo am nad oedd y datblygiad arfaethedig yn unol â darpariaethau'r Cynllun Datblygu Lleol 2. Yn ychwanegol, roedd dau Gyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais a Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi gwrthwynebu'r effeithiau ar y dirwedd.

Roedd yr adroddiad yn cynghori bod safle'r cais yn cynnwys dau ddarn o dir oddi fewn i barc gwyliau Lydstep Beach Village sydd wedi'i hen sefydlu. Mae'n barc gwyliau sydd wedi bod yno ers amser maith yn darparu 471 o unedau llety gwyliau ynghyd â ffyrdd mewnol cysylltiedig, cyfleusterau hamdden a llecyn agored. Mae'r safle mewn man amlwg ar yr arfordir yn tremio dros Lydstep Bay ac wedi'i leoli gerllaw Ardal



Gadwraeth Arbennig (AGA) Arfordir Calch De-orllewin Cymru a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDGA) Lydstep a Tenby Burrows.

Gofynnid am ganiatâd cynllunio ar gyfer gosod 12 llain ar gyfer lleoli unedau llety gwyliau (oddi fewn i'r diffiniad o garafán), ynghyd â decio cysylltiedig, ffyrdd mynediad mewnol, parcio, tirweddu a seilwaith draenio. Bwriedir gosod 11 o unedau llety gwyliau oddi fewn i ardal 'South of Pine Tree' ac un uned oddi fewn i ardal 'North of Haven Crest'. Roedd y cynnig yn cynrychioli datblygiad mewnlenwi bychan oddi fewn i'r parc gwyliau gweithredol presennol ac nid oedd yn ymestyn ffin y safle, oedd wedi'i hen sefydlu, i mewn i'r cefn gwlad oddi amgylch.

Roedd y cais wedi'i gefnogi gan wmbreth o ddogfennau technegol cynhwysfawr, yn cynnwys Datganiad Cynllun, Asesiad Effaith Gweledol a Thirweddol, Asesiad Effaith Ecolegol, Datganiad Seilwaith Gwyrdd, Asesiad Effaith Coedyddiaeth, Cynllun Cadwraeth Ystlumod, Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu a Strategaeth Goleuo. Roedd y dogfennau hyn yn dangos, o dderbyn gweithredu'r mesurau hyrwyddo a lliniaru arfaethedig, na fyddai'r datblygiad yn creu effeithiau annerbyniol ar y dirwedd, bioamrywiaeth, diogelwch ffyrdd, mwynder preswyllo na chwaith ar nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

O ran y Cynllun Datblygu, y polisi cynllunio cenedlaethol, ymatebion ymgynghoriad a phob ystyriaeth berthnasol arall, roedd y Swyddogion o'r farn bod y cynnig yn cynrychioli ffurf briodol o ddatblygiad twristiaeth oddi fewn i barc gwyliau oedd wedi'i sefydlu, ac roedden nhw'n argymhell rhoi caniatâd cynllunio gydag amodau priodol.

Nodwyd yn y cyfarfod bod y cais wedi'i hysbysebu fel gwyrriad oddi ar y Cynllun Datblygu Lleol am yr ystyridd bod yna newid yn y math o lain oddi fewn i'r safle. Fodd bynnag, yn dilyn archwiliad pellach, roedd y swyddogion yn cydnabod bod y rhan helaethaf o safle'r cais ar hyn o bryd dim ond yn caniatáu carafanau i barcio dros dro, a doedden nhw ddim yn leiniau ffurfiol oddi fewn i'r safle, ac felly nid oedd nawr yn cael ei ystyried yn wriiad. Fodd bynnag, doedd yr hysbysebion ychwanegol oedd wedi'u gosod ddim yn cael eu hystyried yn rhoi'r broses ceisio o dan anfantais.

Nodwyd hefyd bod nifer y carafanau ar hyn o bryd a'r cyfanswm o unedau arfaethedig wedi'u nodi'n anghywir trwyddi draw yn yr adroddiad. Cynghorodd y swyddog mai'r ffigyrau cywir oedd 475 o leiniau ar hyn o bryd ac mae'r cyfanswm chwenychid oedd 487.

Yn olaf, derbyniwyd ymatebion ychwanegol o'r broses ymgynghori wrth Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn nodi eu bod o'r un farn ag ecolegydd yr Awdurdod o ran yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, a'u bod yn barod i gefnogi'r casgliadau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad; hefyd



roedd Dŵr Cymru/Welsh Water wedi darparu diweddariad i'w hymateb a oedd nawr yn cymryd sylw o faterion yn ymwneud â'r gwaith trin dŵr gwastraff yn yr ardal. O ganlyniad, roedd amod ychwanegol wedi'i argymhell i sicrhau na fyddai'r un garafán ar safle'r cais yn cael ei defnyddio at bwrpas buddiol nes bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Dinbych-y-pysgod wedi'i gwblhau. Y bwriad oedd cwblhau'r gwaith erbyn 31/12/2026.

Holodd yr Aelodau a fyddai'r defnydd o'r 'man parcio' ar gyfer carafanau fel lleiniau yn arwain at wasgaru'r defnydd at y pwrpas hwn yn arwain at barcio blêr. Cyngorodd y swyddogion nad oedd 'man parcio' arall yn cael ei gynnig fel rhan o'r cais, a byddai'n ofynnol i unrhyw gynigion yn y dyfodol gael caniatâd cynllunio. Nodwyd hefyd fod amod 16 yn cyfyngu'r nifer o garafanau ar y safle. Gofynnwyd cwestiwn hefyd ynghylch capasiti cyfan o'r Ardal Dirweddu, ac fe gynghorodd y swyddogion bod y rhain yn cael ei gweld fel estyniadau bychain i'r safle oedd wedi'u rhanguddio'n dda, a heb eu hystyried yn tanseilio'r capasiti cyfan yr Ardal Dirweddu na chymeriad yr ardal. Yn olaf, awgrymodd un Aelod bod angen i'r diffiniad cyfreithiol o garafán o ran y maws cynllunio gael ei ddiweddarau am ei fod yn ystyried mai cabanau oedd yr unedau hyn yn hytrach na charafanau. Mewn ymateb cadarnhaodd y Swyddogion bod yr unedau yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o garafán.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr Asiant, Helen Ashby-Ridgeway wedyn. Esboniodd bod Haven wedi ymrwymo i fuddsoddi yn barhaus yn ei safleoedd yn Sir Benfro, a bod hynny yn cefnogi'r economi ymwelwyr allweddol. Fodd bynnag, roedd y lleoliad hwn o fewn y Parc Cenedlaethol yn golygu bod rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu a hyrwyddo ei nodweddion arbennig. Nododd mai Polisi 41 oedd y polisi allweddol o ran datblygiad carafanau ac roedd hwn yn cefnogi estyniadau mewn lleoliadau wedi'u rhanguddio'n dda, ynghyd â meini prawf ychwanegol yn cynnwys effaith dirweddol. Doedd y datblygiad ddim yn cael ei ystyried fel un a fyddai'n effeithio'n annerbyniol andwyol am y byddai dim ond golwg cyfyngedig sydyn o'r datblygiad trwy'r rhes o goed sylweddol o edrych o'r llwybr arfordirol i'r gogledd, a byddai hyn yn cael ei liniaru gan blannu coed pellach, a'r defnydd o liwiau ar y carafanau na fyddai'n tynnu sylw. Ni fyddai'r 12 llain ychwanegol i'w gweld o edrych o bell. Cydnabyddid y byddai yna newid i'r mwynder gweledol yn y lle cyn gerllaw'r hawl tramwyo cyhoeddus oedd yn cysylltu'r ffordd â'r rhan amlycaf o'r parc, ond, fodd bynnag, byddai pwy bynnag oedd yn cerdded ar hyd y llwybr eisoes yn ymwybodol eu bod mewn parc gwyliau, gan fod carafanau eisoes yno, a doedd Ms Ashby-Ridgeway ddim yn ystyried y byddai'r newid mor amlwg â'r hyn roedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi'i awgrymu, gan nodi nad oedd Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus yr Awdurdod wedi gwrthwynebu. Nododd ymhellach nad oedd y llwybr yn cysylltu â chefn gwlad ehangach.



Nododd yr Asiant y byddai'r datblygiad yn ychwanegol yn sicrhau tirweddu gwell ar hyd ffin y ffordd a buddiant amlwg i fioamrywiaeth gan gynnwys gweirglodd flodau. Roedd Haven yn cyflogi 123 o bobl ym mhentref Lydstep Beach a byddai'r datblygiad hwn yn gwasanaethu anghenion newidiol ymwelwyr, ac yn diogelu'r swyddi presennol yn y parc gan gynyddu gwariant yn y sir, ac felly yn gwella gwytnwch y sector lletygarwch. Gan fod y cynnig yn bodloni polisïau'r Cynllun Datblygu ac yn cefnogi'r economi ymwelwyr, gofynnodd i'r Aelodau gefnogi argymhelliad y swyddog i gymeradwyo.

Cymerodd yr Aelodau'r cyfle i ofyn i'r asiant ynghylch colli'r man parcio dros dro ac fe esboniodd Ms Ashby-Ridgeway nad oedd yn fwriad i sefydlu man parcio arall yn ei le ac y byddai Haven yn rheoli symudiad carafanau dros ben, nad oedden nhw ar y safle, yn well yn y dyfodol. Awgrymodd, pe bai'r Aelodau yn pryderu, y gellid cynnwys amod i'w gyflwyno fel rhan o gynllun rheoli gweithredol i esbonio sut y byddid yn delio â charafanau a'u symud o'r safle. Roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn awgrym gwerth chweil. Ac fe gytunodd y swyddogion y gellid ei gynnwys fel amod ychwanegol.

Roedd rhai Aelodau yn pryderu ynghylch agosrwydd y llwybr troed at y brif ffordd ond cynghorodd y swyddogion nad oedd hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried fel rhan o'r cais. Awgrymwyd y gellid darparu arwyddion fel rhan o'r cynllun rheoli gweithredol.

Roedd yna bryder arall ynghylch colli llecyn hamdden anffurfiol yn y lleiaf o'r ddau leoliad safleoedd. Cynghorwyd yr Aelodau nad oedd hwn yn fan chwarae ffurfiol a bod yna lecynnau chwarae eraill – rhai ffurfiol ac anffurfiol – wedi'u lleoli ar draws y safle ehangach.

Cafodd cwestiwn ei ofyn hefyd ynghylch p'un a oedd yr holl goed ar y safle wedi'u diogelu. Cynghorodd y swyddog bod yna Orchymyn Diogelu Coed mewn grym dros ran helaeth o'r safle, a bod y Swyddog Coed a Thirwedd wedi cydweithio gyda'r perchnogion safle dros nifer o flynyddoedd i ddiogelu coed oddi fewn i'r pentref gwyliau.

Roedd yr Aelodau yn falch y byddai cyfanswm nifer y carafanau ar y safle yn cael ei reoli ac y byddai lliwiau enciliol yn cael eu defnyddio yn y datblygiad arfaethedig. Y gobaith oedd y byddai lliwiau o'r fath yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer mwy o garafanau ar y safle, ac fe gynghorodd y swyddogion nad oedd ganddyn nhw reolaeth dros weddill y safle, ond y byddai'r cais hwn yn gweithredu fel catalydd pan fydd carafanau yn cael eu gosod yn lle'r rhai presennol yn y dyfodol.



Nododd y swyddogion bod CNC wedi mynegi eu cytundeb gyda chanlyniad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr Awdurdod, a'r argymhelliad nawr oedd cymeradwyo, gydag amodau, yn cynnwys yr amodau ychwanegol yn ymwneud ag amseru'r preswyllo yn y carafanau a chyflwyno cynllun rheoli gweithredu, ac fe gafodd hwn ei gynnig gan y Cynghorydd Clements, a'i eilio gan y Cynghorydd James, a'i dderbyn trwy bleidlais.

Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, cynllun rheoli tirwedd, tirweddu, yn unol â Datganiad Dull Coedyddiaeth, Datganiad Dull Gweithio Gofalus, yn unol ag Asesiad Effaith Ecolegol, yn unol â Datganiad Seilwaith Gwyrdd, strategaeth lliniaru golau, diogelu coed, draenio dŵr wyneb, paled lliwiau ar gyfer carafanau newydd, cyfradd llenwi, mwyafswm nifer carafanau ar y safle ar unrhyw adeg, cynllun rheoli gweithredu a pheidio â defnyddio carafanau nes cwblhau Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Dinbych-y-pysgod.

- (b) Cyfeirnod: NP/26/0253/RES
Cynnig: Cais am gymeradwyaeth i bob mater a gadwyd yn ôl gan gynnwys ymddangosiad, tirweddu, cynllun, graddfa a mynediad (NP/23/0545/FUL)
Lleoliad: Tir ger Bro Dawel, Solfach, Hwlfordd, Sir Benfro, SA62 6XW

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor am ei fod yn cael ei ystyried fel 'cais o bwys' fel y caiff ei ddiffinio gan Orchymyn 2012 Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Datblygiad Cyffredinol) (Cymru). Roedd ymgynghorydd statudol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) hefyd wedi codi pryderon ynghylch y cais oedd wedi'i argymhell i'w gymeradwyo.

Atgoffwyd yr Aelodau bod cais cynllunio NP/23/0545/FUL wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ym mis Ebrill 2025. Roedd hwn yn gais cynllunio hybrid am safle eithrio tai fforddiadwy yn cynnwys caniatâd cynllunio llawn (Cam 1) ar gyfer 17 o anheddau rhent cymdeithasol, ail-osod cae pêl-droed iau a gwaith cysylltiedig; yn ychwanegol i ganiatâd cynllunio amlinellol (Cam 2) ar gyfer anheddau rhent cymdeithasol pellach (pob mater wrth gefn i'w hystyried eto). Cyflwynwyd y penderfyniad yn ffurfiol ym mis Ebrill 2026 yn dilyn cwblhau cytundeb cyfreithiol yn rheoli darpariaethau amrywiol yn cynnwys cadw'r tai fforddiadwy am byth.

Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor yn argymhell cymeradwyo'r materion wrth gefn (Cam 2) o'r cais cynllunio hybrid blaenorol. Roedd yn darparu manylion 11 o anheddau tai fforddiadwy, yn gyson trwyddi draw â'r manylion a gyflwynwyd wrth ofyn am ganiatâd amlinellol, ac yn cynrychioli parhad derbyniol o olwg yr anheddau, mynediad, gosod allan a



thirweddu. Doedd y cynnig ddim yn cyflwyno materion o'r newydd ac roedd yr amodau cynllunio oedd wedi'u hargymell yn cael eu hargymell yng nghyd-destun yr amodau oedd eisoes yn eu lle fel rhan o'r caniatâd hybrid.

Roedd Rheoli Datblygu Priffyrdd wedi cyngori cynt y dylid darparu ail bwynt mynediad ar hyd y briffordd nad oedd wedi'i mabwysiadu, rhwng y safle a Bro Dawel, i ddarparu ffordd fynediad frys i ddiffoddwyr tân/ambiwlans neu gerbydau eraill pe bai'r brif fynedfa wedi'i chau. Nodwyd bod cynlluniau diwygiedig wedi'u cyflwyno a bod yna ymgynghori pellach wedi bod ynghylch y rhain ond na ddaeth yr un gwrthwynebiad i law. Nodwyd hefyd yn y cyfarfod bod yna gynllun tirweddu wedi'i ddiweddarau wedi dod i law oedd yn delio â mater pryderon amllder plannu.

Nododd yr adroddiad bod CNC wedi mynegi pryderon oherwydd ers penderfynu'r cais gwreiddiol roedd Dŵr Cymru Welsh Water wedi cadarnhau nad oedd y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) yn cydymffurfio â'r llif yn mynd heibio fel roedd yn ofynnol ac o'r herwydd ni ellir dechrau ar y datblygiad nes y byddai'r gwaith i ddelio â hyn wedi'i gwblhau; roedd disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn 31/12/26. Am ei bod yn angenrheidiol i waith y cais hybrid gael ei wneud fesul cam, byddai'n bosib rheoli trefn ac amseriad i fod yn unol ag uwchraddio terfynol y GTDC a doedd dim angen amod ar wahân. Er bod GTDG Solfach yn bwydo i mewn i'r Ardal Gadwraeth Arbennig nid oedd yn bwydo i mewn i ddyfroedd oddi fewn Dalgylchoedd Dŵr Croyw Ardal Gadwraeth Arbennig Forol lle'r oedd Niwtraliaeth Nitrogen yn ofynnol fel roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i nodi, ac roedd Ecolegydd yr Awdurdod wedi bwrw golwg ar hyn gan ddod i'r casgliad nad oedd yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar Safle Ewropeaidd, ac wedi dod i'r casgliad nad oedd angen asesiad priodol. Roedd yr ecolegydd yn bresennol yn y cyfarfod ac esboniodd bod yr amod fesul cam presennol yn ddigonol i leddfu pryderon CNC.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr Asiant, Elene Gegeshidze. Esboniodd bod yr egwyddor o 11 cartref wedi'i sefydlu a bod cytundeb cyfreithiol yn ei le ar gyfer 28 o dai fforddiadwy ar draws dau gam y ceisiadau hybrid llawn ac amlinellol am byth. Roedd y cais Materion Wrthgefn, oedd gerbron y Pwyllgor felly, yn ymwneud â ph'un a oedd eu golwg yn dderbyniol a'r un modd y tirweddu, y gosod allan, graddfa a mynediad, ac roedd y swyddogion wedi dod i'r casgliad eu bod yn fodlon o weld y manylion a'u bod wedi argymell cymeradwyo. Roedd y cynllun yn dal yn driw i'r canllawiau oedd wedi'u cymeradwyo, ac yn creu datblygiad cydlynol gyda chymeriad adeileddol cyson, a'r dyluniad wedi'i ddatblygu mewn ymateb i gymeriad ehangach Solfach. Cymerwyd gofal penodol hefyd gyda'r tirweddu, o ystyried bod y safle o fewn y Parc



Cenedlaethol, a chafwyd mewnbyn gan ddau ymgynghorydd tirweddu arbenigol. Roedd y plannu brodorol wedi'i gadw i raddau helaeth a phlannu ychwanegol wedi'i ddewis yn ofalus i weddu i'r patrymau tywydd lleol. Roedd y fframwaith ar gyfer rheoli'r tirweddu wedi'i osod allan yn y cynllun rheoli tirwedd oedd wedi'i gyflwyno.

Aeth yn ei blaen i gynghori nad oedd pryderon mynediad yn bodoli bellach o ganlyniad i'r ymgynghoriad pellach gyda'r Awdurdod Prifffyrdd a chynnwys yr ail fynedfa frys. Roedd trefniadau Draenio Cynaliadwy wedi'u cymeradwyo trwy broses statudol y corff draenio cynaliadwy SAB.

Terfynodd yr Asiant trwy ddweud y byddai'r 11 cartref yn darparu llety rhent cymdeithasol roedd ei ddirfawr angen yn Sir Benfro a hynny yng nghyd-destun y cyfyngiadau amgylcheddol yn ymwneud â maethynnau mewn ardaloedd eraill, ac y byddai uwchraddiadau angenrheidiol Dŵr Cymru yn Solfach wedi'u cwblhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd y gymysgedd arfaethedig o dai wedi'u llunio ar sail angen lleol ond gan ddarparu rhai tai mwy o faint i gefnogi cymuned gytbwys wrth iddi fynd yn ei blaen. Byddai cymeradwyo'r cais felly yn diogelu tai fforddiadwy o safon i'r bobl hynny oedd eu hangen. Roedd y cynllun wedi'i baratoi trwy gydweithio'n glos ag Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Solfach gyda mewnbyn cymunedol uniongyrchol yn cynorthwyo i lunio'r cynllun gan greu ymdeimlad lleol. O ganlyniad gofynnodd i'r Pwyllgor gefnogi argymhelliad y swyddog i gymeradwyo.

Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo gan y Cynghorydd Price, ei eilio gan y Cynghorydd Tinley a'i gefnogi'n unfrydol.

Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, oriau adeiladu, cynllun ar gyfer heolydd mewnol yr ystâd, llefydd gyrru a llwybrau cerdded ac ail fynedfa a pharcio a throi.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.40 a 11.50am]

7. Gorfodaeth

[Datgelodd y Cynghorydd V Thomas ddiddordeb personol a rhagfarnol yn y mater canlynol ond gan fod y mater ddim ond yn ymwneud â chynnig gwybodaeth fe'i cynghorwyd i aros yn y cyfarfod.]

(a) EC24/0029 – Tir ger Froghall Yard, Moreton Lane, Saundersfoot/Llanusyllt, Sir Benfro, SA69 9JG

Roedd yr adroddiad yn gosod allan cefndir achos gorfodaeth yn ymwneud â gwneud newid sylweddol o'r defnydd o'r tir a nodir uchod o fod yn goetir i ddefnydd cymysg o goetir a lleoli cartref mudol ar gyfer anghenion



preswyl a/neu amcanion storio, a chyflawni gwaith peirianyddol yn cynnwys gosod pibellau draenio a gwaith tirwedd cysylltiedig.

Ar ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad roedd y safle yn dal yn fater tramgwydd cynllunio ac argymhellwyd pe bai'r garafán, y sied a'r twmbwriach cysylltiedig yn dal ar y safle y tu hwnt i 28ain Awst 2026, yna, dylid rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu i gyfarwyddo cyfreithwyr i gychwyn camau gosod gwaharddeb ynghylch y methiant parhaus i gydymffurfio â'r Rhybudd Gorfodaeth, a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr i wneud beth bynnag fyddai ei angen o ran gweithredu'r waharddeb.

Yn y cyfarfod cynghorodd y Cyfarwyddwr bod galwad ffôn wedi'i dderbyn wrth y perchennog yn cadarnhau bod y safle wedi'i glirio a chafodd hyn ei gadarnhau gan swyddog pan ymwelodd â'r safle ar Awst 27ain. Roedd yn ddiolchgar bod hyn wedi'i gyflawni heb fod angen i'r Awdurdod gychwyn camau cyfreithiol a doedd hi ddim felly yn chwennych caniatâd i gychwyn camau cyflwyno gwaharddeb. Cadarnhawyd bod trydydd cais cynllunio wedi dod i law yn ymwneud â'r safle, ac esboniwyd ei bod yn angenrheidiol i'r Awdurdod, o dan ddeddfwriaeth Gymreig, benderfynu'r cais. Byddai'r cais yn cael ei gyflwyno gerbron un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau cadarnhaodd y Swyddog bod y safle yn y gorffennol yn gymysgedd o goedlan a phrysgwydd, a'i fod y tu allan i ffin ganol ac felly yn cael ei ystyried fel ei fod yng Nghfefn Gwlad – Polisi 7 o'r Cynllun Datblygu Lleol 2 a pholisi Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn ddilys. Roedd y cais newydd wedi'i werthuso ac yn agored i dderbyn sylwadau.

Nodwyd.

(b) EC25/0051 – Tir ger Wynd Hill, Maenorbŷr

Roedd yr adroddiad yn amlinellu cefndir y mater gorfodaeth hwn a oedd yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â Rhybudd Gorfodaeth dyddiedig 19 Rhagfyr 2025. Roedd hyn yn cynnwys creu man mynediad trwy glawdd a chlirio rhannol o lecyn coediog (oddeutu 0.61 erw) wedi'i leoli mewn ardal wledig agored. Roedd hyn wedi arwain at newid defnydd o'r tir.

Nodwyd nad oedd y Nodyn Tramgwyddo Cynllunio wedi'i ddychwelyd ac roedd y camau a osodwyd allan yn y Rhybudd Gorfodaeth, sef gwaredu'r clwydi ac adfer y tir a'r clawdd i'w gyflwr blaenorol, cyn i'r tramgwydd ddigwydd, heb ei gyflawni o fewn y cyfnod o amser a benodwyd.

Nodwyd bod yna waith ychwanegol wedi'i gyflawni yn ystod y misoedd diwethaf a bod yna eitemau pellach, yn cynnwys carafán deithiol, wedi'i



gosod ar y safle. Cynghorodd y swyddogion mai'r bwriad oedd gweini Rhybudd Gorfodaeth pellach ynghylch y garafán cyn hir.

Ystyriai'r swyddogion bod y perchennog tir wedi cael llaweroedd o gyfleoedd i gywiro'r tramgwydd rheoli cynllunio a chydymffurfio â'r Rhybudd Gorfodaeth. Roedd y methiant parhaus i gydymffurfio â'r Rhybudd Gorfodaeth yn tanseilio cywirdeb y system gynllunio, a hyder cyhoeddus yn y gallu i'w weithredu'n gywir yn ogystal ag achosi pryderon diogelwch priffyrdd. Roedd hefyd wedi arwain at ymwithio dianghenraid yng nghefn gwlad gwledig a oedd yn ei dro yn achosi ymwithio gweledol sylweddol a oedd yn andwyl i rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Ystyriwyd felly ei bod yn hwylus ac er lles cyhoeddus i gychwyn y broses o erlyn pe na bai'r tramgwydd yn cael ei ddatrys, a gofynnwyd am roi awdurdod dirprwyol felly i'r swyddogion gyfarwyddo cyfreithwyr yr Awdurdod i gychwyn trefniadaeth erlyn mewn Llys Ynadon o dan Adran 179(2) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel roedd wedi'i diwygio) am beidio â chydymffurfio â'r camau gofynnol o dan Rybudd Gorfodaeth EC25/0051 ar ôl terfyn y cyfnod a ganiatawyd i gydymffurfio.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod y gwaith yn ymwithiad sylweddol yn nhirwedd y Parc Cenedlaethol, ac roedden nhw'n siomedig nad oedd y perchennog tir wedi ymateb i ofynion y swyddogion. Gofynnodd yr Aelodau a oedd yna unrhyw weithredu a fyddai'n bosib i adfer y niwed achoswyd i'r tir, ac atebodd y Cyfreithiwr mai'r dewis arall i osgoi erlyn byddai i'r Awdurdod chwennych gorfodeb gan y Llys yn ei gwneud yn ofynnol i ddatrys y sefyllfa neu i gymryd camau uniongyrchol gan geisio sicrhau'r costau o wneud hynny. Ychwanegodd y swyddogion nad oedd gweithredu pellach wedi'i anwybyddu pe na bai'r erlyn yn arwain at adfer y safle.

Trwy ddweud mai eu dyletswydd oedd diogelu'r Parc Cenedlaethol, a chymryd gweithred anghyfreithlon o'r fath fel mater difrifol, cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Clements, ei eilio gan Ms Gwenllïan ac fe'i cefnogwyd yn unfrydol yn y bleidlais.

Penderfynwyd rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r swyddogion gyfarwyddo cyfreithwyr yr Awdurdod i gychwyn trefniadaeth erlyn mewn Llys Ynadon o dan Adran 179(2) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel roedd wedi'i diwygio) am beidio â chydymffurfio â chamau gofynnol Rhybudd Gorfodaeth EC25/0051 ar ôl y cyfnod a ganiatawyd ar gyfer cydymffurfio.

8. Apeliadau

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu ynghylch 13 o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio yr Awdurdod) oedd ar hyn o bryd yn



nwylo Llywodraeth Cymru, a manylodd ynghylch pa ran o'r drefn apêl roedd pob cais wedi cyrraedd erbyn hyn.

Roedd penderfyniadau apêl wedi'u hatodi:

- a) NP/25/0538/FUL Newidiadau ffasâd blaen (Ol-weithredol) - Herons Reef, Guildford Row, Llangwm Ferry, Hwlfordd;
- b) NP/25/0632/FUL Anedd newydd deulawr gyda garej arwahan ac anecs arwahan – Llain gyferbyn i Coedmor, Dinas; a
- c) NP/25/0668/FUL Cais ôl-weithredol ar gyfer balconi pren llawr cyntaf gyda chynigion i gynnwys adeiledd trawstiau pren agored gyda phaneli cadarn yn 1800mm o uchder lle bydd angen ar hyd estyniad i'r balconi presennol - 60, Scandinavia Heights, Saundersfoot/ Llanusyllt.

Gwrthodwyd ill tri.

Roedd yna benderfyniad wedi'i atodi hefyd ynghylch penderfyniad Gweinidogion Cymru o ran CAS-01352-L3N2P8, cais o dan y Ddeddf Drydan 1989 – Adran 36 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 90 gan Llŷr Floating Wind Limited – Codi a Gweithredu Gorsaf Generadu Alltraeth yn y Môr Celtaidd a Seilwaith Cysylltiedig, oddeutu 35cm yn y môr i'r de-orllewin o Benrhyn Angle oddi ar arfordir Sir Benfro.

Roedd yr Awdurdod yn ymgynghorydd o ran penderfynu'r cais ac wedi gwrthwynebu yn wreiddiol (cyfarfod APC mis Mawrth 2025), ond wedi addasu hynny yn ddatganiad o bryder (APC mis Mai 2025) yn dilyn cynigion gan yr ymgeiswyr i gyfyngu uchder y twrbeini, gosod gorchudd arnyn nhw a'u lleoli cyn belled â phosib o'r tir, yn ogystal â chynnig cyfraniad i gryfhau cloddiau ar draws y penrhyn.

Nodwyd bod Arolygydd Cynllunio wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru wedi ystyried y ceisiadau uchod ac wedi argymhell y dylid gwrthod y ddau gais adran 36 a'r un modd gwrthod caniatâd cynllunio (IR 100).

Fodd bynnag, tra bo gweinidogion Cymru yn cytuno ag asesiad o effeithiau'r prosiect, gan gynnwys y prif faterion oedd wedi'u nodi, roedden nhw hefyd o'r farn bod buddiannau economaidd ac ynni adnewyddadwy hefyd yn ystyriaethau o bwys. Roedden nhw hefyd yn anghytuno â'r pwys a roddwyd ar effeithiau amgylcheddol andwyol o gymharu â'r pwys a roddwyd ar gyfraniad y cynigion i gefnogi twf economaidd a chynnydd tuag at amcanion ynni adnewyddadwy.

Roedd Gweinidogion Cymru felly wedi rhoi caniatâd o dan Adran 36 o'r Ddeddf Drydan 1989 ar gyfer codi a gweithredu'r datblygiad a ddisgrifiwyd yng nghais cyf: CAS-01352-L3N2P8 ac yn Atodiad 1, yn amodol ar yr amodau oedd wedi'u cynnwys ac wedi rhoi cyfarwyddyd oedd yn caniatáu



caniatâd cynllunio o dan Adran 90(2) o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990. Ni chafodd y cynnig i gyfrannu at gryfhau'r cloddiau ei gynnwys fel rhan o'r penderfyniad.

Nododd yr Aelodau bod y penderfyniad hwn yn codi nifer o gwestiynau ac ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol eu trafod mewn gweithdy yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Nodwyd.

